## Un o'r Milwyr a Groeshoeliodd Iesu

**Darllen Luc 23: 33–43**

Daeth y milwyr hefyd ato a'i watwar, gan gynnig gwin sur iddo, a chan ddweud, 'Os ti yw Brenin yr Iddewon, achub dy hun' (Luc 23:36–37).

Beth oedd yr holl sôn yna am frenin?
Nid oedd yn edrych yn frenhinol i mi,
yn hongian yno ar groes,
a choron ddrain wedi ei gwasgu ar ei ben.

Ac eto, o'n blaen,
wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau bras uwch ei ben:
'Hwn yw Brenin yr Iddewon.'
Jôc wael, meddem ni,
ffordd Pilat o ddangos i genedl falch pwy oedd wrth y llyw.
A digon da hefyd,
oherwydd roeddent yn cynllwynio rhywbeth neu'i gilydd byth a hefyd,
yn benderfynol o greu trafferth i ni.
Ond y tro hwn, yn rhyfedd iawn, nhw oedd yn ei wawdio,
nid ni,
yn gweiddi ac yn melltithio yn llawer iawn gwaeth na ni.

Beth bynnag oedd yr orsedd oedd ganddo mewn golwg,
doedden nhw ddim yn ei chydnabod,
neb ohonynt ar wahân i ryw ddyrnaid bach.
Felly, dyma ymuno yn yr hwyl,
wrth ein boddau fod y dorf am unwaith o'n plaid.
Ond erbyn hyn rwy'n difaru,
oherwydd roedd yna rywbeth rhyfedd yn y ffordd yr oedd yn hongian yno,
y ffordd y dioddefodd a marw.

Dim o'r hen hunandosturi yna.
Dim cri am drugaredd na dialedd.
Dim ond rhyw urddas anesboniadwy hyd yn oed wrth grynu yn ei ing...
a phan siaradodd,
dim ond geiriau o faddeuant,
ac o gariad;
yn wir roedd yna ryw dinc o fuddugoliaeth,
ac awgrym, er ein grym, mai ef oedd wrth y llyw.
Achubodd eraill, meddai rhai –
pam nad achubodd ei hunan?

Ond yna, beth fyddai gwir frenin wedi ei roi'n gyntaf:
ei orsedd,

neu ei ddeiliaid?
Gwnaeth i mi feddwl, mae'n rhaid i mi gyfaddef –
hwyrach mai brenin ydoedd, wedi'r cyfan.
Sut, does gen i ddim syniad,
ond dywedaf hyn,
os bwriadwyd y geiriau 'Brenin yr Iddewon' fel jôc,
arnom ni roedd hi,
oherwydd mewn rhyw ffordd ryfedd a digamsyniol,
ef oedd yn chwerthin yn y diwedd.

**Gweddi:**
Arglwydd yr Arglwyddi, Brenin y Brenhinoedd,
dysg i ni dy anrhydeddu
drwy fyw yn ôl gwerthoedd dy deyrnas:
dy wasanaethu drwy wasanaethu eraill,
dy garu drwy garu eraill,
rhoi i ti drwy roi i eraill.
Tyrd i'n calonnau,
ein bywydau,
ein byd,
a theyrnasa yn ein plith.
Amen.

***Nick Fawcett, addaiad Olaf Davies***